**Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru**

**Cofnodion cyfarfod 9 Tachwedd 2021 a gynhaliwyd dros Zoom**

**Yn bresennol:** Parch Simon Walkling (Llywydd); Rheinallt Thomas (Cyn Lywydd); Martin Spain (Trysorydd); Aled Davies; Chris Gillham; Gareth Morgan Jones; Judith Morris; Meirion Morris; Dyfrig Rees; Ian Morris; Peter Dewi Richards; Irfon Roberts; Vaughan Salisbury; Eirian Wyn; Steffan Wiliam (yn cyfieithu); Helen Jones (Ysgrifennydd)

**Derbyniwyd Ymddiheuriadau:** Brian Matthews; Gethin Rhys.

**1. Croeso:** Croesawyd pawb yn gynnes iawn i'r cyfarfod gan y Llywydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gethin Rhys a oedd yn Glasgow dros gyfnod cyfarfodydd COP26 a Brian Matthews a oedd i ffwrdd mewn cyfarfodydd Sasiwn y Dwyrain.

**2. Defosiwn:** Roedd y defosiwn yng ngofal y Llywydd. Darllenodd ran o Marc 13:1 - 8. Cyferbyniodd y rhagfynegi o ddinistr Jerwsalem a'r cyfnod ôl-Cofid y tystiwn ni iddo ar hyn o bryd. Mae cenhadaeth Duw yn parhau ac fel oedd newid a phwyslais ar addoli ffurfiol y Deml y cyfnod roedd yr Iesu yn ystod ei weinidogaeth yn estyn maddeuant Duw i'w bobl. Holwn ein hunain a oes atsain o hyn yn ein cyfarfodydd enwadol a gofynnwn ble mae ein hundod yng Nghrist. Yna offrymodd weddi am arweiniad Duw yn ein cyfarfod a gofyn i'r Ysbryd Glan i weithredu fel bo'r Cyngor yn darganfod ffordd i wneud gwahaniaeth yn ei bwrpas a'i weledigaeth ac i ddatblygu perthynas â'n gilydd.

**3. Cofnodion cyfarfod 23 Mehefin 2021:** Derbyniwyd y Cofnodion gyda Rheinallt yn cynnig eu bod yn gywir ac eiliwyd gan weddill y Cyngor a oedd yn bresennol. Diolchwyd i'r Ysgrifennydd Helen am gofnodi.

**3i. Materion yn codi** – Dim

**3ii. Dogfen Gweinidogaeth Ardal**

Diolchwyd i Judith am arwain. Dwedodd nad oedd newid ers cyfarfod Mehefin. Soniodd bod angen diwygio a chyfieithu'r ddogfen. Mynegodd na fyddai llawer o newid nes i Swyddog newydd gael ei apwyntio gan Cytûn. Roedd hi mewn trafodaeth ac yn trefnu cyfarfod gydag Ainsley Griffiths, Eglwys yng Nghymru. Byddai rhaid trafod y ddogfen fel mae gydag Ainsley a chael ei fewnbwn iddi. Mynegodd Rheinallt gonsyrn am ohirio yn enwedig cofio bu Cytûn heb Swyddog am bron 2 flynedd cyn i Peredur Griffiths gael ei apwyntio. Roedd galwadau wedi dod gan eglwysi lleol mewn ardaloedd a oedd yn ystyried y fenter am gopi. Wrth ei fwrw o'r neilltu byddai hyn yn gallu bod yn rwystr. Holodd pryd byddai'r ddogfen yn flaenoriaeth gan Swyddog newydd Cytûn yn y dyfodol. Soniwyd gan bod angen i'r 3 Ysgrifennydd Cyffredinol i ymateb ac i ddiwygio'r ddogfen a oedd ar y pwynt o'i gyfieithu i'r Saesneg. Mynegwyd nad oedd dim yn rhwystro eglwysi lleol a oedd yn dymuno rhannu gweinidogaeth i fwrw at eu nod os oedd trafodaethau wedi cychwyn e.e. gweinidogaeth newydd i Bro Nant Conwy. Cytunwyd bod angen fframwaith ar y ddogfen. Roedd Peredur wedi gobeithio y byddai'r ddogfen wedi cael ymateb gan y 3 Ysgrifennydd Cyffredinol cyn iddo adael ei swydd. Gofynnwyd a oedd cydweithio rhwng yr Anglicaniaid a'r Anghydffurfwyr mewn ardal – ond doedd neb yn ymwybodol o hyn.

Dywedodd y Llywydd gan fod Gweinidogion yn lleihau mewn gwahanol enwadau mae datgysylltu am gydweithio yn gallu digwydd. Dywedodd Meirion fod trafodaethau gyda'r Eglwys yng Nghymru yn ddefnyddiol a bod Ainsley Griffiths yn gweld hynny'n bosib yn enwedig mewn ardaloedd Cymreig ond bod angen deall sut byddai rhannu gweinidogaeth fel hyn yn bosibl. Mae gan yr Eglwys yng Nghymru broblem i ddeall eu gweinidogaeth eu hunain gyda rhannu offeiriaid i weinidogaethau Bro. Mae'r anghydffurfwyr wedi cydweithio i ffurfio Gweinidogaeth Bro yn y gorffennol. Er bod anawsterau gyda'r patrymau addoli mae manteision ynghyd â heriau. Mae'n rhaid bod yn rhesymol am adeiladau addoli a meddwl am sensitifrwydd aelodau o fewn cymuned leol.

Dywedodd Aled D. ei fod yn Weinidog ar 5 eglwys o 3 enwad gwahanol, gan fod gwasanaethau rhithiol wedi cynyddu dros y flwyddyn diwethaf, mae aelodau o gapeli arall tu allan i'w eglwysi'n

ymuno ac yn chwilio am wasanaethau rhithiol. Bellach, mae nhw wedi dod yn rhan o'r Oedfa er nad ydyn nhw'n perthyn i'w ofalaeth. Yn sgil hyn, mae gofal bugeiliol wedi datblygu ac yn cynyddu. Holodd a welir cydweithio fel hyn yn y dyfodol? Gyda dyfodiad cyfarfodydd rhithiol mae cynulleidfa rhithiol sy'n golygu bod cydweithrediad rhwng y rhai sy'n ymuno. Bydd angen trafodaeth adeiladol ar hyn. Diolchwyd i Judith am arwain y drafodaeth.

| |
|---|
| Pwyntiau gweithredu:1. 3 Ysgrifennydd cyffredinol i barhau i ddiwygio'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cyhoeddi'r ddogfen. 2. Cyfarfod gydag Ainsley G i barhau trafodaethau gyda'r Eglwys yng Nghymru. 3. Angen holi effaith cymunedol dilyn gwasanaethau ar Zoom. 4. Ystyried cydweithrediad Gweinidogaeth Lleyg yn y dyfodol 5. Dogfen Gweinidogaeth Bro ar yr Agenda i gyfarfod Mai. |

**4. Adroddiad y Llywydd – (**Anfonwyd dyddiadur digwyddiadau allan ymlaen llaw.)
Mynegodd Simon ei fod yn derbyn gwahoddiadau gan Lywodraeth Cymru. Roedd e'n ceisio gweithio allan ai trwy ei waith fel Cymedrolwr EUDd oedd rhain yn dod neu trwy ei rôl fel Llywydd CERHC. Roedd mewnbwn Gethin yn bwysig i wahaniaethu ei waith i'w enwad a gwaith Rhyng-ffydd ar ran CERHC.

**5. Adroddiad Cytûn** - (Anfonwyd adroddiad allan ymlaen llaw)
Bydd Gethin yn adrodd nôl i gyfarfod Cytûn ar 18 Tachwedd ôl-drafodaethau wedi ei ymweliad â COP26 yn Glasgow.

Cododd Vaughan lawer pwynt o adroddiad Gethin.
**1. Addysg** – i. Nododd bod cyfraniad gan Cymdeithas y Beibl i'r Cwricwlwm newydd yn yr ysgolion. Bydd hi'n anodd gwybod sut ymateb fydd i Agor y Llyfr. Bellach mae'n anodd i Weinidogion i ymweld ag ysgolion. Nododd bod aelod o CYSAG Wrecsam sy'n ddyneiddiwr wedi cyhoeddi y byddai'n hoffi ymweld ag ysgolion i ddweud ei safbwynt. Dwedodd bod "Agor y Llyfr" wedi ei sgriptio'n ofalus i beidio â throedio ar farn un rhywun. Bydd ail gyfrol "The Lion Storyteller" presennol yn dod allan Pasg nesaf ac yn ddilyniant i'r un cyfredol. Mynegodd bod hi'n anodd gwybod beth fydd yr ymateb i "Agor y Llyfr" pan ddechreuir y Cwricwlwm newydd fis Medi nesaf. Dywedodd Aled bod lle i'r eglwys leol fel rhan o hanes – mae tystiolaeth leol yn bwysig o dan y Cwricwlwm a gellid gwahodd dosbarthiadau o blant i fewn i fannau o addoli i esbonio ei le mewn cymdeithas. Mae Meleri Cray yn cydlynu ar ran Cymdeithas y Beibl Cymru yn y Prosiect Cymru a Lloegr.

ii. Mynegodd Chris Gillham bryder o gylch CYSAG Sir Benfro a'u bod yn newid eu henw i CYS, yn gorffen gyda chynrychiolaeth presennol y pwyllgor ac wedi gofyn am enwebiadau newydd i'r pwyllgor. Yn y dyfodol bydd hyn yn golygu llai o gynrychiolwyr ar y pwyllgor a rhaid fyddai gofyn i Cytûn anfon enwebiadau yn gyflym i'r Pwyllgor lleol. Gofidiai y gallai'r Anghydffurfwyr golli cynrychiolaeth ar y pwyllgor a bod yr aelodaeth o CYS yn ddibynnol ar yr awdurdod lleol yn dilyn gwaith trefn cywir.

**2. Banciau** –Roedd diffyg gwasanaethau bancio yn parhau yn ofid ac yn arbennig yr angen i dalu a throsglwyddo sieciau drwy'r banciau. Mae hyn yn gallu bod yn gostus yn arbennig i elusennau fel a nodwyd gan HSBC. Codwyd pwynt diddorol am Undeb Credyd a allai fod o ddefnydd i fudiadau bach.

**6. Hyfforddiant**
Mae hwn bellach dan Gadeiryddiaeth Dr Hefin Jones, Coleg Cenedlaethol. Mae ail drafod hyfforddiant ffurfiol ar fin ail gychwyn dan ofal Dr Eryl Wynn Davies. Bydd prosbectws gan yr enwadau unigol a threfnir cyfarfod ym mis Ionawr 2022. Mae'n galonogol ar ran yr ochr Gymraeg bod Dr Manon Ceridwen James o sefydliad Sant Padarn wedi cymryd diddordeb yn hyn. Mae'n ddefnyddiol bod cyrsiau ar gael ar y Weinidogaeth Gymraeg yng Nghymru. Diolchwyd i Meirion am ei Adroddiad.

**7. Adroddiadau**

**i. Addysg** – Vaughan Salisbury (Anfonwyd adroddiad ymlaen llaw)

1. Mae'r Cwricwlwm newydd yn parhau yn destun trafod gan Llywodraeth Cymru. Dylai canllawiau newydd gael eu cyhoeddi diwedd y flwyddyn. Mynegodd er bod amser yn brin bwriedir dechrau'r Cwricwlwm newydd yn ysgolion Cynradd fis Medi 2022. Ni fydd Cwricwlwm Ysgolion Uwchradd yn cychwyn tan Medi 2023.

2. Soniwyd bod newid i ddyfodol TGAU yn cael ei ystyried. Bydd cyrsiau yn cael eu diwygio a rhai newydd yn cael eu hychwanegu. Mae ymgynghoriad ar hwn yn cael ei ystyried dros y ddwy flynedd nesaf. Bwriedir dechrau'r cymwysterau newydd ym Medi 2025.

3. Addysg Trydyddol – Dwedodd Vaughan bod y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles am greu corff newydd yn y sector hyn ac wedyn yn gorffen ariannu'r gyllideb presennol. Bydd angen i'r newid hwn gael ei basio fel Deddf. Gweler gwefan y Senedd am grynodeb 56 tudalen –"Comisiwn Addysg Trydyddol ac Ymchwil."

4. Bu Rheinallt a Vaughan yn ceisio caniatâd i gyfieithu adnoddau gwrth-hiliol Addysg Grefyddol mewn partneriaeth gyda FCC Lloegr ers 18 mis. Sarah Cawte Sy'n cydlynu ar ran FCC ond yn methu cael ymateb gan RE Today. Cynigiodd Rheinallt y byddai'n fuddiol i'r Llywydd CERhC anfon llythyr at RE today i weld beth sy'n bosibl i gefnogi prosiect o'r fath. Dywedodd Aled Davies ei fod yn gweld Zoe Keens, y prif weithredwr yn aml a byddai'n cael gair gyda hi.

| |
|---|
| **Pwynt gweithredu**: Llywydd CERhC yn ysgrifennu llythyr yn enw'r Cyngor at RE today i weld sut allen nhw gynorthwyo gyda'r prosiect yng Nghymru. |

**ii. Trysorydd** - Martin Spain

Mynegodd y Trysorydd nad oedd llawer o newid yn y cyfrifon ers cyfarfod Mehefin. Yr unig wariant oedd y £500 i Cytûn.

**iii. Enwadau**

**i. Cynulliad Methodistiaid Synod Cymru** - Ian Morris (Anfonwyd adroddiad allan ymlaen llaw)

Edrychir ymlaen at sefydlu Synod Methodistaidd ddwyieithog ym mis Medi 2022.

**ii. Eglwys Bresbyteraidd Cymru** – Meirion Morris. Mae'r eglwysi'n dechrau ail ymgynnull wedi Cofid. Mae'r eglwys yn ceisio dirnad ei chenhadaeth i'r dyfodol gan gynnwys ei gwasanaethau lleol a pha fath o weinyddiad fydd angen yn y dyfodol.

**iii. Undeb yr Annibynwyr Cymraeg** – Dyfrig Rees. Mae gweithgareddau'n ail ddechrau a phobl yn dychwelyd i'w addoldai er mae rhai'n parhau gyda gwasanaethau Zoom ac fe werthfawrogir hyn. Mae eglwysi'n sylweddoli eu bod mewn man newydd ac mae gwersi i'w dysgu ynglŷn a'r dyfodol er mwyn symud ymlaen.

**iv. Undeb Bedyddwyr Cymru** – Judith Morris

Mae gweithgareddau wedi dechrau nôl. Mae Cod ymddygiad ar gyfer Gweinidogion wedi ei sefydlu. Mae'r Undeb wedi croesawi gweithwyr cenhadol i Gymru. Mae 5 Gweinidog newydd i wahanol Gymanfaoedd wedi/ neu yn cael eu hordeinio. Mae'r Gorfforaeth yn rhoi mwy o ystyriaeth i werth adeiladau yn y dyfodol.

**v . Congregational Federation** - Chris Gillham

Wrth ddod allan o Cofid mae'n ymddangos bod yr eglwysi cryf wedi cryfhau a'r rhai gwan wedi gwanhau. Mae parhad ar wasanaethau Zoom i'w weld yn adnodd hir dymor. Mae'r Gweithiwr Cefnogaeth Eglwys wedi ymddiswyddo ac mae'r enwad yn y broses o apwyntio un newydd. Mae

hyn yn angenrheidiol i helpu eglwysi yn y dyfodol. Byddai'n werth ystyried "Gweinidogaeth Bro" i eglwysi Saesneg hefyd er mwyn rhannu gweinidogaeth mewn ardaloedd lle nad oes gweinidog.

**vi. Eglwys Unedig Ddiwygiedig** – Simon Walkling
Mae nifer eglwysi'n lleihau. Mae hyfforddiant bellach wedi ymestyn i bobl lleyg. Mae'r eglwys yn edrych ar ei pholisi amgylcheddol.

**8. Free Churches Group** – Paul Rochester – Dim adroddiad

**9. UFA**

Mynegodd Vaughan ei fwriad yng nghyfarfod Mehefin i gael ei ryddhau o'i rôl fel swyddog Addysg CERhC pan fydd y Cwricwlwm newydd yn cychwyn yn ysgolion Cymru. Roedd bellach yn fodlon parhau tan Medi 2023 pan ddechreuir y Cwricwlwm newydd yn ysgolion Uwchradd Cymru.
Mynegodd Simon ei ddiolch i Vaughan am hyn ac roedd yn siwr byddai hyn yn gymorth er mwyn trefnu olynydd.
Diolchwyd i Helen am gofnodi ac i Steffan am gyfieithu yn effeithiol.

**10**. **Y Fendith**
Gorffennwyd y cyfarfod am 11.45 drwy weddi a rhannu'r gras gan y Llywydd.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF – 24 MAI 2022 drwy gyfrwng ZOOM**